**EITEM 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 19 Tachwedd 2013 |
| **TEITL** | Balansau Ysgolion |
| **PWRPAS** | |
| **ARGYMHELLIAD** | |
| **AWDUR** | Dewi R Jones, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Sian Gwenllian |

# Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru (SDR 183/2013)

**Sylwadau**

1. Rwyf eisoes wedi adrodd i gyfarfod diwethaf y Fforwm Cyllid Ysgolion (25/6/13) am leihad ym malansau ysgolion Gwynedd o £4.4m ar 31 Mawrth 2012 i £3.8m ar 31 Mawrth 2013.
2. Yn dilyn cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar falansau ysgolion 31 Mawrth 2013 (Atodiad 2) mae cyfle i gymharu balansau ysgolion Gwynedd gyda gweddill Awdurdodau Lleol Cymru.
3. Gwelir yn Atodiad 2 - Tabl 2 bod canran balansau ysgolion Gwynedd yn erbyn y gyllideb ddatganoledig yn 4.5% o'i chymharu gyda chyfartaledd Cymru o 3.3%, gyda chanran Gwynedd yn parhau ymysg yr uchaf yng Nghymru.
4. Yn dilyn cais gan Gyngor Gwynedd, mae Llywodraeth Cymru nawr yn cyhoeddi gwybodaeth am falansau negyddol yn nhabl 1 a 2, gyda chyfanswm balansau negyddol ysgolion Gwynedd yn ymddangos yn gymharol isel. Dylid nodi wrth gwrs mai'r nôd yw na ddylsai balansau negyddol fod yn yr un o'n hysgolion.
5. Trwy dderbyn y wybodaeth am falansau negyddol gallaf nawr ail gyfrifo'r ganran balansau gan anwybyddu'r balansau negyddol fel y gwelir yn Atodiad 1. Mae'r cyfrifiad yma yn rhoi darlun llawer tecach o falansau ysgolion.

**Casgliad**

1. Mae lefel cymharol uchel balansau ysgolion Gwynedd yn parhau i achosi pryder gan nad yw **rhai ysgolion**, fe ymddengys felly, yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer disgyblion sydd oddi fewn i'r gyfundrefn addysg ar hyn o bryd. Mae hwn yn fater sydd eisoes wedi'i amlygu ar sawl achlysur gan yr Aelod Cabinet dros Addysg.
2. Gall lefel balansau uchel rhai ysgolion Gwynedd hefyd creu rhwystr wrth i'r Aelod Cabinet dros Addysg geisio amddiffyn ysgolion rhag derbyn toriadau ariannol uchel.